Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
—
Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Yr Athro Mererid Hopwood
Prifysgol Aberystwyth

14 Tachwedd 2025

Annwyl Athro Hopwood,

## Dinas Llenyddiaeth UNESCO

Dyma ysgrifennu atoch gyda llawenydd – fel cadeirydd Pwyllgor Diwylliant a Chysylltiadau Rhyngwladol ein Senedd – i estyn fy llongyfarchion cynhesaf ichi, ac i bob un a oedd yn rhan o gais llwyddiannus Aberystwyth i fod y cyntaf i gael ei henwi'n Ddinas Llenyddiaeth UNESCO.

Nid clod diwylliannol yn unig mo'r cyflawniad rhyfeddol hwn. Mae'n ddatganiad pwerus am le Cymru yn y byd. Fe lywiodd eich gweledigaeth a'ch arweinyddiaeth y cais hwn gydag angerdd, a diben. Mae'r canlyniad yn dyst i greadigrwydd, ymroddiad ac ysbryd cydweithredol pob un a gyfrannodd.

Yn ystod ein hymchwiliad diweddar i Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, pwysleisiwyd yn gyson gan randdeiliaid bwysigrwydd cryfhau cysylltiadau diwylliannol ac economaidd rhyngwladol Cymru. Mae eich llwyddiant yn enghraifft o'r blaenoriaethau hyn, ac yn atgyfnerthu hunaniaeth Cymru fel cenedl sy'n arddel iaith a llenyddiaeth, ac un sy'n ymgysylltu ar sail fyd-eang.

Ry'n ni oll uwchben ein digon drosoch chi.  Llongyfarchiadau, Aber!

Yn ddiffuant,



**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.